WELSH BOARD OF HEALTH
RECEIVED
20 NOV 1954
10

PENLLYN R D C

CYNGOR DOSBARTH GWLEDIG PENLLYN.

ADRODDIAD

Y

SWYDDOG MEDDYGOL

ar

GYFLWR IECHYD Y DOSBARTH

am

1953.

Mr. Cadeirydd a Boneddigion,

Cyflwynaf i chwi adroddiad am y flwyddyn yn diweddu 31ain. Rhagfyr 1953:-

Amcangyfrif y Cofrestrydd Cyffredinol o'r boblogaeth am y flwyddyn oedd 2798, (14 yn llai na'r flwyddyn flaenorol).

Nifer y genedigaethau byw-anedig oedd 45 (2 yn fwy nag yn 1952) ac nid oedd marwolaeth o dan blwydd oed.

Nifer y marwolaethau oedd 27 (11 yn llai nag yn 1952)

Nifer o farwolaethau oddiwrth canser oedd 7 (11 yn 1952)

Yr oedd un marwolaeth ac un achos newydd o Ddarfodedigaeth yr ysgyfaint.

Yr oedd amryw o achosion o'r frech goch yn ystod y flwyddyn.

Mae safleoedd gwersyllau a charafannau yn cynyddu ac yn ychwanegu at broblemau iechyd, a rhaid fydd rhoddi mwy o sylw iddynt yn y dyfodol.

Dymunaf ddiolch i Mr. D.J.Jones yr Arolygydd Iechyd a'r Swyddogion eraill am eu cyd-weithrediad yn ystod y flwyddyn.

Yr eiddoch,

E.Richards.

ADRODDIAD BLYNYDDOL SWYDDOG MEDDYGOL Y CYNGOR AM 1953.

CYFFREDINOL.

Arwynebedd y Dosbarth:	98,469 o aceri.
Gwerth Trethiannol:	£6465
Poblogaeth (Ffigyrau'r Cofrestrydd Cyffredinol)	2798
Nifer y tai annedd:	883.

GENEDIGAETHAU A MARWOLAETHAU:

Cyfartaledd genedigaethau:	1.16
Cyfartaledd marwolaethau:	0.85

GENEDIGAETHAU.

Byw a Marwanedig:	45
Bywanedig:	45
Marwanedig	0
Genedigaethau yn ol mil o boblogaeth:	16.08

Digitized by the Internet Archive
in 2016 with funding from
Wellcome Library

https://archive.org/details/b28871200

Bywanedig:	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Cyfreithlon:	21	24	45
Anghyfreithlon:	1	1	2

MARWOLAETHAU.

	Gwryw	Benyw
Cyfanswm:-27	16	11

Marwolaethau yn ol mil o'r boblogaeth: 9.65
Y ffigur am 1952:- 12.45

Marwolaethau plant dan flwydd oed:-	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Cyfreithlon:-	0	0	0
Anghyfreithlon:-	0	0	0

Marwolaethau plant yn ol mil o enedigaethau:- 0
(Y ffigyrau am 1952) 46.51
Marwolaethau plant cyfreithlon yn ol mil o enedigaethau:- 0

Marwolaethau plant dan bedair wythnos oed:-	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Cyfreithlon	0	0	0
Anghyfreithlon	0	0	0

Marwolaethau mamau (Ynglyn a beichiogi a geni plant)	0
Marwolaethau o'r canser:	7
(Yn ol mil o'r boblogaeth)	2.50
Marwolaethau oddiwrth Ddarfodedigaeth	1
(Yn ol mil o'r boblogaeth)	0.36

GWASANAETH IECHYD.

1. SWYDDOGION IECHYD.
   Un Swyddog Meddygol
   Un Arolygydd Iechyd.
2. CYFLEUSTERAU LABORDY.
   Dwr: Dadansoddiad cemegol gan y Dadansoddwr Cyhoeddus yng Nghaer. Arolygu bacteriologaidd gan Labordy Iechyd y Cyhoedd, Conwy.

   Llaeth: Profion am lendid, ansawdd cadw a darfodedigaeth gan Labordy Iechyd y Cyhoedd, Conwy. (Ni chodir unrhyw dal ar yr Awdurdod Lleol am y profion hyn ar laeth).

3. CYFLEUSTERAU AMBIWLANS:
   Nid oes gorsaf ambiwlans yn y cylch.

4. CLINIGAU LLESIANT PLANT:
   Cynhelir clinig ddwywaith y mis yn Festri Capel yr Annibynnwyr yn y Bala.

5. CLINIGAU DARPAE GENI:
   Cynhelir clinig o'r fath unwaith yn y mis yn yr Aelwyd yng Nghorwen.

6. CLINIG ORTHOPAEDIG:
   Fe'i cynhelir ddwywaith yn y mis yn Festri Capel yr Annibynnwyr yn y Bala.

7. CLINIG DARFODEDIGAETH:
   Bob pythefnos yn yr Ysbyty yn Nolgellau.

8. ATALHEINTIO DIPTHERIA:
   Trefnir ar gyfer atalheintio gan Swyddog Meddygol y Sir. Ceir atalheintio ar fabanod a phlant yn yr Ysgolion Cynradd yn gyson a mynych. Rhoddir derbyniad da i'r trefniant hwn gan rieni yn y Dosbarthiadau Gwledig.

9. YSBYTAI:
   Nid oes yr un ysbyty o fewn tiriogaeth y Cyngor Dosbarth.

10. AFIECHYDON HEINTUS.

Cyfanswm yr Afiechydon Heintus (heblaw Darfodedigaeth) a wnaed yn hysbys yn ystod y flwyddyn:- 114

Y Dwymyn Goch	-	1
Twymyn y Perfedd	-	0
Y Pas	-	0
Y Frech Goch	-	113
Parlys llym	-	0

DARFODEDIGAETH:		Achosion Newydd.		
		Gwryw	Benyw	Cyfanswm.
Ysgyfeiniol	-	-	1	1
Anysgyfeiniol	-	0	0	0
MARWOLAETHAU O ACHOS DARFODEDIGAETH:				
Ysgyfeiniol	-	0	1	1
Anysgyfeiniol	-	0	0	0

DARFODEDIGAETH.

Achosion Newydd o Farwoldeb yn ystod 1953 yn nhrefn oedran.

Oedran	Achosion Newydd		Marwolaethau.	
	Anadlol	Ananadlol	Anadlol	Ananadlol.
1	G. B.	G. B.	G. B.	G. B.
2				
5				
10				
15				
20				
25				
35				
45				
55				
65	1		1	
75				
	1		1	

ACHOSION MARWOLAETHAU.
1953.

		Gwryw	Benyw
Darfodedigaeth yr Ysgyfaint	-	-	1
Parlys llym	-	-	-
Canser Ystumog	-	1	1
Canser yr Ysgyfaint	-	1	-
Canser y Fron	-	-	1
" (Safleoedd eraill)	-	2	1
Anafau llestriog cyfundrefn y nerfau	-	4	-
Afiechyd rhydweliau'r galon	-	2	-

		Gwryw	Benyw.
Gorbwys gyda chlefyd y galon	-	1	-
Clefydau eraill y galon	-	4	2
Clefydau cychredol eraill	-	-	-
Anwydwst	-	-	-
Llid yr ysgyfaint	-	-	-
Bronceitus	-	-	-
Clefydau eraill y gyfundrefn anadlu	-	-	-
Casgliad ar yr ystumog a'r perfeddyn bach	-	-	1
Llid yr ystumog, y coluddion a'r dolur rhydd	-	-	-
Llid yr elwlod	-	-	1
Afiechydon eraill	-	-	3
Damweiniau gan fpduron	-	-	-
Pob damwain arall	-	-	-
Hunanladdiad	-	-	-
Achosion eraill	-	1	-
		16	11

DEDDF CYMORTH GWLADOL 1948.

Bu un achos o dan Adran 47 o'r Ddeddf hon yn ystod y flwyddyn.

Adroddiad ar ymchwiliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn gan yr Arolygydd Iechyd, Mr. D.J.Jones.

1. Nifer o ymchwiliadau wnaed:-
Tai annedd yn cynnwys ffermdai:- 267

2. Tramgwyddiadau:- 107

Deliwyd a'r mwyafrif o'r rhai hyn heb orfodaeth na rhybudd.

3. Gorlenwi mewn tai:- 6
4. Annedd-dai symudol, Pebyll, faniau.
Mae cynnydd mewn gwersyllau a safleoedd carafannau yn yr ardal, a bu'n angenrheidiol cydweithredu gyda Pwyllgor Cynllunio y Sir er mwyn sicrhau gwersyll parhaol o dan oruchwyliaeth swyddogol. Nifer o ymchwiliadau - 27

5. Adeiladau Pryfedog:- 3

6. Diheintio yn achos afiechydon heintus - 2

7. Poptai:- Nid oes ond un popty yn y dosbarth, ac mae hwn yn cael ei archwilio bob mis.

8. Siopau Hufen Ia:- Nid oes gwneuthurwyr yn y dosbarth, ond gwerthir hufen ia parod.

9. Siopau Pysgod Ffrio:- Dim yn y dosbarth.

10. Llaethdai:- 39. Y rhan fwyaf o laeth yn cael ei werthu gan man-werthwyr llefrith, pa rai sydd o dan oruchwyliaeth y Weinyddiaeth Amaeth. Y mae ymchwiliadau yn cael eu gwneud o samplau bacterioleg a biolog yn cael eu cymeryd.

11. Siopau Cig:- Dwy siop yn unig. Y dwy yn foddhaol er mewn angen gwelliantau. Nifer o ymchwiliadau - 24.

12. Nid oes lladd-dy yn y dosbarth.

13. Enghreifftiau o fwyd a gondemniwyd:- 7 enghraifft o man-duniau o fwyd.

14. Deddf Siopau a chyfleusterau ymolchi:-
Mae'r siopau yn cael eu harchwilio yn aml, ac y mae'r tai yn gysylltiedig, felly mae'r cyfleusterau ymolchi yn foddhaol.

15. Samplau Dwr:-
Cymerwyd 42 o samplau bacterioleg a 3 dadansoddiad cemegol, mwyafrif ohonynt i bwrpas cyflenwad preifat ynghyd a'r ymchwiliadau arferol i gyflenwadau cyhoeddus,
Y mae'n angenrheidiol pwysleisio y pwysigrwydd o gadw y darddell yn lan yn hytrach na dibynnu ar un neu ddau dadansoddiad boddhaol.

16. Cysylltiadau Dwr Newydd:-
(a) Tai Annedd - 6
(b) Eraill - 0

Yn ystod y flwyddyn dechreuwyd y gwaith o osod pibell 4" i Frongoch er cyflenwi nifer o ffermdai a thai yno, a hefyd tai newydd fwriedir eu hadeiladu yno yn y dyfodol. Y mae'r cyflenwad yma yn cael ei gario gan y brif bibell perthynol i Gyngor Tref y Bala o Llyn Arenig. Mae'r bibell ddwr yn Glan'rafon, Llawrbettws wedi cael ei ymestyn i gyflenwi 4 ty yno.

17. Rhybuddion Ffurfiol:-
Anfonwyd 1 o dan adran 9 o Ddeddf y Tai 1936.

18. Atal tramgwyddiadau:- 47 trwy rybudd anghydffurfiol.

19. Atal gorlenwi:- 6 achos o orlenwi. Cafodd dau deulu dai gan Cyngor Tref y Bala.

Ar wahan i'r gorlenwi, problem arall ydyw cyflwr tyddynod yr ardal a'r ffermdai bach. Mae llawer ohonynt mewn cyflwr drwg ac heb y mwynderau sydd yn angenrheidiol at fywyd llawn a'r gost i'w gwneud yn addas yn faich afresymol ac yn aneconomaidd. Pan aent yn wag ni ddaw neb i fyw iddynt wedyn, a chyn hir maent yn adfeilion ac yn arwyddion mud i ddiboblogi y wlad.
Oyn gellir delio yn foddhaol a'r broblem hyn, bydd yn angenrheidiol i'r Awdurdodau cyfrifol ddangos mwy o antur a gweledigaeth nag y maent wedi ei wneud hyd yn hyn.

Yn ystod y flwyddyn dechreuwyd adeiladu 20 o dai Cyngor newydd yn Llandderfel, ac wedi eu cwblhau, byddant yn gymorth i'r Cyngor ddod dros y broblem o dai yn yr ardal yma.

Y mae nifer o ffermdai wedi eu gwella , y perchenogion wedi cymeryd mantais o'r cymorth-dal i'r pwrpas, end yn anffodus nid oes modd cael dim i'w wneud i'r tai bychain.

Yn ystod y flwyddyn daeth un cais am gymorth-dal o dan y Ddeddf Tai 1949, ac ar ol ystyriaeth gan y Cyngor a'r Weinyddiaeth, penderfynwyd rhoddi cymorth, ond gwerthwyd y ty, ac felly ni roddwyd y cymorth-dal.

Garthffosiaeth Llandderfel.
Y mae'r cynlluniau i ddechreu ar y gwaith yma yn barod, ac fe ddylid dechreu os nad ei orphen yn ystod 1954.

Mae cynllun carthffosiaeth wedi ei ddarparu mewn cysylltiad ag 8 o dai newydd perthynol i'r Cyngor yn Rhyduchaf, ond dim ond 2 ar wahan i Tai y Cyngor sydd wedi eu cysylltu i'r garthffos llc y mae'r gweddill yn parhau i rannu ceudai ac yn cymeryd eu dwr glan o bibellau oddiallan heb ddim cyfleusterau yn y tai, ond mae ymdrechion yn cael eu gwneud i wella hyn.

Ar y cyfan, y mae'r flwyddyn wedi bod yn flwyddyn o welliantau. Ychwanegiad mewn tai newyddion a gwelliantau yn yr hen rai. Helaethiad o weithfeydd dwr ac eraill i.e. Gwaith Dwr Llanuwchllyn gyda darpariaeth newydd i'r pentref, a Llandderfel yn y dyfodol agos.

DEDDF FFATRIOEDD 1937.

Ffatrioedd llc y gweithredir Adran 7 o'r Ddeddf gan yr Awdurdod lleol: Nifer ar y Gofrestr - 4 Archwiliadau - 4 Rhybuddion Ysgrifennedig-0 Deiliaid a erlynwyd - Neb.